Adran Gwaith a Phensiynau

# Nodiadau Credyd Pensiwn

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 99 1234** neu ffôn testun **0800 169 0133** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

**PC1W Notes** 09/23

# Cynnwys

Beth yw Credyd Pensiwn? .......... 3
Amdanoch chi .......... 5
Eich partner .......... 5
Unrhyw blentyn/plant a phobl ifanc gymwys rydych eisiau gwneud cais amdanynt .. 5
Ble rydych yn byw .......... 7
Arian sydd gennych, gan gynnwys cynilion a buddsoddiadau .......... 9
Budd-daliadau .......... 11
Pensiynau .......... 11
Gwaith .......... 13
Arian arall sy'n dod i mewn .......... 13
Pethau arall sydd angen i ni eu gwybod .......... 15
O bryd rydych am wneud cais .......... 16
Gwybodaeth arall .......... 18
Sut rydym yn eich talu .......... 20
Eich datganiad .......... 22
Beth i'w wneud nawr .......... 23
Gwladolion yr AEE a'r Swistir .......... 24
Sut mae DWP yn casglu a defnyddio gwybodaeth .......... 24

**Trin pobl yn deg**

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn trin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk/cymraeg**

## Defnyddio’r nodiadau hyn

Mae’r nodiadau hyn yn dweud mwy wrthych am Gredyd Pensiwn ac yn eich helpu i lenwi’ch ffurflen gais.

**Cofiwch**
Y ffordd hawdd i wneud cais am Gredyd Pensiwn yw dros y ffôn. Ffoniwch ni ar **0800 99 1234**.

# Beth yw Credyd Pensiwn

Taliad di-dreth yw Credyd Pensiwn i’r rhai sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso, ac sy’n byw ym Mhrydain Fawr. Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr a’r Alban.

### A ydwyf wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso?

Yr oedran cymhwyso yw’r oedran cynharaf y gallwch gael Credyd Pensiwn. Mae yr un peth ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy’n 66 ar hyn o bryd.

I ddarganfod pryd y gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn, darllenwch adran ‘Gwybodaeth arall’ y llyfryn hwn ar dudalen 18. Neu ewch i **www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth**

### Pwy ddylai wneud cais?

Os ydych chi a’ch partner eich dau wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso, gall y naill neu’r llall ohonoch wneud cais. Fodd bynnag, dim ond un ohonoch all gael Credyd Pensiwn ar unrhyw amser. Bydd hyn ar gyfer y ddau ohonoch. Gallwn helpu’r ddau ohonoch i benderfynu pwy ddylai wneud cais.

### Gwneud cais am Gredyd Pensiwn fel rhan o gwpl

O 15 Mai 2019, os ydych mewn cwpl byddwch yn gymwys i ddechrau cael Credyd Pensiwn dim ond os:

- rydych chi a’ch partner wedi cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn, neu
- mae un ohonoch wedi cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn ac mae gennych hawl i Fudd-dal Tai fel cwpl i bobl sydd wedi cyrraedd yr oedran hwnnw. Mae’n rhaid i’r person sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso gwneud y cais am Gredyd Pensiwn

Os nad ydych yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol yn lle. Neu, os ydych chi neu’ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy’n gysylltiedig ag incwm, efallai y gallwch barhau i gael y budd-dal hwnnw.

## Os gwnaethoch ddechrau cael Credyd Pensiwn cyn 15 Mai 2019 ac rydych mewn cwpl

Cyn 15 Mai 2019, roeddech yn gallu hawlio Credyd Pensiwn fel cwpl os oedd y naill neu'r llall ohonoch wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso. Os gwnaethoch ddechrau cael Credyd Pensiwn cyn hynny ond mae eich hawl wedi stopio am unrhyw reswm, er enghraifft oherwydd bod eich amgylchiadau yn newid, ni fyddwch yn gallu ei gael eto oni bai eich bod chi (neu'ch partner) yn gymwys o dan y rheolau newydd. Ni allwch gael Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn ar yr un pryd. Os gwnewch chi neu'ch partner gais am Gredyd Cynhwysol bydd eich Credyd Pensiwn yn dod i ben.

## Os ydych chi'n cael Credyd Pensiwn a'ch bod chi'n sengl

Byddwch yn stopio cael Credyd Pensiwn os byddwch yn dechrau byw gyda phartner sydd o dan oedran cymhwyso Credyd Pensiwn. Efallai y gallwch ddechrau ei gael eto pan fydd eich partner yn cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn.

## Faint yw Credyd Pensiwn?

Mae'r swm o Gredyd Pensiwn a gewch yn dibynnu ar faint o arian sydd gennych yn dod i mewn bob wythnos, a faint sydd gennych wedi ei gynilo neu ei fuddsoddi. Am wybodaeth ynglŷn â'r cyfraddau Credyd Pensiwn diweddaraf ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn**

## Beth os ydwyf yn gwneud camgymeriad ar y ffurflen??

Os gwnewch gamgymeriad ar y ffurflen a'ch bod yn ei llenwi â beiro, croeswch hi allan a rhowch eich llythrennau cyntaf wrth ymyl. Nid ydych angen llenwi ffurflen gais arall.

## Beth os nad wyf yn gwybod yr ateb i gwestiwn, neu os nad oes gennyf ddogfen rydych wedi gofyn amdani?

Os na allwch lenwi'r holl ffurflen gais oherwydd nad yw'r wybodaeth rydym yn gofyn amdano gennych, neu ni allwch anfon dogfen rydym yn gofyn amdani:

- dywedwch wrthym pam na allwch roi'r wybodaeth neu ddogfennau yn y rhan 'Gwybodaeth arall' o'r ffurflen gais, ac
- anfonwch y ffurflen gais atom ar unwaith fel ein bod yn gallu penderfynu os gallwn eich talu.

# Amdanoch chi

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i roi eich manylion personol i ni.

### Eich rhif ffôn

Mae'n ddefnyddiol i ni allu eich ffonio os bydd gennym gwestiwn am eich cais. Mae hyn yn arbed amser a gallai eich arbed rhag gorfod llenwi rhagor o ffurflenni.

### Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am fudd-daliadau, slipiau cyflog neu ffurflen.

# Eich partner

Os oes gennych bartner, defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i roi manylion personol eich partner i ni. Rydym yn defnyddio 'partner' i olygu:
- person rydych yn briod â nhw neu'r person rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn briod â nhw, neu
- partner sifil neu berson rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn bartneriaid sifil.

### Byw mewn cartef gofal

Os ydych chi neu'ch partner yn byw mewn cartref gofal yn barhaol, ni ddylech wneud cais fel cwpl. Dylai'r ddau ohonoch lenwi eich ffurflen gais eich hun. Os ydych yn byw gyda'ch gilydd fel cwpl mewn cartref gofal, gallwch wneud cais ar y cyd.

# Unrhyw blentyn/plant a phobl ifanc cymwys rydych am wneud cais amdanynt

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen i roi manylion i ni o unrhyw blant neu bobl ifanc cymwys rydych yn dymuno gwneud cais amdanynt.

I gael swm ychwanegol am blentyn neu berson ifanc cymwys mae'n rhaid i chi:
- cael prif gyfrifoldeb am blentyn neu berson ifanc cymwys
- fel arfer yn byw gyda'r plentyn neu berson ifanc cymwys
- peidio â bod yn hawlio Credydau Treth, neu wedi bod â hawl i Gredydau Treth yn y flwyddyn flaenorol.

Pan mae'r ffurflen yn cyfeirio at 'blentyn', dylech ddefnyddio hyn hefyd i ddweud wrthym am unrhyw berson ifanc cymwys rydych yn hawlio amdanynt.

## Plentyn a pherson ifanc cymwys

Plentyn yw person o dan 16 oed.

Person ifanc cymwys yw person sydd wedi cyrraedd 16 oed ond heb gyrraedd 20 oed sydd wedi cofrestru ar, neu wedi ei dderbyn ar hyfforddiant wedi'i gymeradwyo neu gwrs addysg nad yw'n addysg uwch, er enghraifft astudio am TGAU neu lefel A. Mae'n rhaid i'r cwrs sydd wedi'i gymeradwyo neu addysg nad yw'n addysg uwch gael ei ddarparu gan ysgol neu goleg lle mae'r astudiaethau ar gyfartaledd yn fwy na 12 awr bob wythnos.

Nid yw addysg nad yw'n addysg uwch yn cynnwys:

- gradd ôl-raddedig neu gymhwyster tebyg
- gradd gyntaf neu gymhwyster tebyg
- diploma o addysg uwch
- diploma cenedlaethol uwch, neu
- cwrs o astudiaeth sydd uwchben GNVQ uwch neu gyfwerth, tystysgrif addysg gyffredinol (lefel uwch), neu gymhwyster cenedlaethol yr Alban (uwch neu uwch pellach).

Mae hyfforddiant wedi'i gymeradwyo yn golygu hyfforddiant wedi'i drefnu o dan ddeddfwriaeth benodol ac wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cynnwys dysgu sylfaenol a mynediad at brentisiaethau.

Lle mae'r person ifanc yn 19 oed, mae'n rhaid iddo ef neu hi fod wedi dechrau'r addysg neu hyfforddiant neu wedi cofrestru arno neu wedi ei dderbyn arno cyn cyrraedd yr oedran hwnnw.

## Cyfrifoldeb am blentyn neu berson ifanc cymwys

Rydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys os ydynt fel arfer yn byw gyda chi, ond nid os ydych yn cyd-fyw â'r person ifanc cymwys fel cwpl.

Os ydych yn rhannu cyfrifoldeb am y plentyn gyda pherson arall sydd ddim yn aelod o'ch cartref, gadewch i ni wybod.

## Plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol

Mae plentyn yn cael ei ystyried fel pe bai yn cael ei ofalu amdano gan awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb cynhaliaeth a gofal y plentyn hwnnw neu'n darparu llety i'r plentyn fel rhan o'i gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae plentyn mewn gofal maeth yn cael ei ystyried fel pe bai yn cael ei ofalu amdano gan awdurdod lleol.

Nid yw plentyn yn cael ei ystyried fel pe bai yn cael ei ofalu amdano gan awdurdod lleol os yw mewn gofal am seibiant byr sydd wedi'i drefnu neu gyfres o seibiannau i roi seibiant i'w gofalwr arferol.

### Hawlio Credydau Treth

Os ydych wedi hawlio Credydau Treth yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r dyfarniad yn barhaus o hyd, ni fyddwch yn gymwys am yr elfen ychwanegiad plentyn o Gredyd Pensiwn. Yn lle hynny, bydd angen i chi gysylltu â CThEM i ychwanegu'r plentyn i'ch cais Credydau Treth.

Efallai bydd eich dyfarniad yn cael ei ystyried fel bod yn barhaus yn yr amgylchiadau hyn:
- rydych yn cael taliadau gan CThEM o hyd
- gofynnwyd i chi adnewyddu eich Credydau Treth, ond nid ydych wedi ymateb eto
- rydych wedi cael dyfarniad o Gredydau Treth, ond ddim yn cael taliadau ar hyn o bryd.

Os nad ydych wedi hawlio Credydau Treth yn y flwyddyn ddiwethaf, efallai byddwch y gymwys am yr elfen ychwanegiad plentyn o Gredyd Pensiwn.

Drwy 'Gredydau Treth', rydym yn golygu Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

### Prydain Fawr

Pan soniwn am 'Prydain Fawr' ar y ffurflen gais, rydym yn golygu Cymru, Lloegr a'r Alban.

## Ble rydych yn byw

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen i ddweud wrthym ble rydych yn byw. Mae angen i ni wybod ble rydych yn byw oherwydd efallai y gallwch gael help gyda rhent, Treth Cyngor neu gostau tai eraill. Er enghraifft, efallai y gallwch gael help gyda chostau gwasanaethau neu daliadau morgais.

### Pobl sy'n byw yn fy nghartref

Pan fyddwch yn dweud wrthym am bobl sy'n byw yn eich cartref, dywedwch wrthym am unrhyw un arall sy'nbyw gyda chi, yn cynnwys:
- perthnasau, yn cynnwys plant sydd wedi tyfu
- lletywyr
- ffrindiau.

Nid oes angen i chi ddweud wrthym am:
- pobl sydd ond yn rhannu cyntedd, ystafell ymolchi neu doiled gyda chi
- trigolion eraill os ydych yn byw dros dro mewn cartref gofal.

## Help gyda rhent a Threth Cyngor

Os ydych chi neu'ch partner yn gyfrifol am dalu rhent neu Dreth Cyngor am y lle rydych yn byw, efallai y gallwch gael help gyda'r gost drwy Fudd-dal Tai a gostyngiad Treth Cyngor. Gallwn nawr eich helpu i wneud cais am Fudd-dal Tai ar yr un pryd ac rydych yn gwneud cais am Gredyd Pensiwn.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am ostyngiad yn eich Treth Cyngor, neu gael gwybod amdano, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

## Help gyda chostau gwasanaeth (yn yr Alban, o'r enw 'factoring')

Efallai y bydd angen i chi dalu am gynnal a chadw ardaloedd cymunedol neu wasanaethau. Efallai y bydd angen i chi dalu am gynnal a chadw rhannau o'r eiddo. Gelwir y rhain yn gostau gwasanaethau. Os ydych yn talu'r rhain, efallai y cewch Gredyd Pensiwn ychwanegol. Anfonwch brawf o'ch costau gwasanaethau atom, hyd yn oed os yw'n swm bach. Er enghraifft, eich cytundeb tenantiaeth neu lythyr sy'n gofyn i chi am gostau gwasanaeth.

## Help gyda rhent daear (yn yr Alban, o'r enw 'ground annual')

Os ydych yn byw mewn eiddo prydles, efallai y bydd rhaid i chi dalu rhent blynyddol i'r perchennog tir. Gelwir hyn yn rhent tir. Os ydych yn gwneud y taliadau hyn, efallai y gallwch gael Credyd Pensiwn ychwanegol. Anfonwch dystiolaeth o'ch rhent tir, hyd yn oed os yw'n swm bach. Er enghraifft, eich cytundeb tenantiaeth neu lythyr yn gofyn i chi am rent tir.

## Os wyf yn denant y Goron, yn talu brif rent neu daliadau rhent eraill

Os mai'r Goron neu adran y llywodraeth yw eich landlord, gall hyn fod yn denantiaeth y Goron. 'Prif rent' yw arian sy'n cael ei dalu am eiddo rhydd-ddaliadol i Arglwydd y Faenor. Os ydych yn talu mathau tebyg o rent, dylech ddweud wrthym am hyn hefyd.

Os ydych chi neu'ch partner yn denant y Goron, yn talu prif rent neu daliadau rhent eraill, dywedwch wrthym yn y rhan 'Gwybodaeth arall' o'r ffurflen faint o rent a godir arnoch a faint gaiff ei gynnwys yn y rhent am ddŵr. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

### Help gyda'ch morgais neu fenthyciad cartref

Os ydych yn cael Credyd Pensiwn (neu'n mynd i gael eich trin fel pe baech yn ei gael) ac mae gennych forgais neu fenthyciad cartref, efallai y gallwch gael help gyda'r llog.

Byddai'r help hwn ar ffurf benthyciad a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Llenwch y ffurflen 'MI12 - Credyd Pensiwn i bobl sydd â morgais neu fenthyciad cartref'. Yna anfonwch y ffurflen MI12 wedi'i chwblhau at eich benthyciwr morgais neu fenthyciad cartref. Ar ôl iddynt lenwi gweddill y ffurflen, byddant yn ei hanfon yn ôl atom.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, efallai nad ydym wedi rhoi ffurflen MI12 i chi oherwydd bod y wybodaeth rydym ei angen gennym yn barod.

### Mwy nag un morgais neu fenthyciad cartref gyda gwahanol fenthycwyr

Efallai bod gennych forgais gan gymdeithas adeiladu a benthyciad gwella cartref o fanc, er enghraifft. Os oes gennych forgais neu fenthyciad cartref gyda mwy nag un benthyciwr, dywedwch wrthym yn y rhan 'Gwybodaeth arall' o'r ffurflen gais. Byddwn yn anfon ffurflen MI12 Credyd Pensiwn i bobl sydd â morgais neu fenthyciad cartref atoch er mwyn i chi a phob benthyciwr ei llenwi.

## Arian sydd gennych, yn cynnwys cynilion a buddsoddiadau

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym beth yw cyfanswm eich cynilion a'ch buddsoddiadau. Hefyd dywedwch wrthym p'un a ydych yn berchen neu gyd berchen ar unrhyw eiddo neu dir yn y wlad hon neu dramor - heblaw'r lle rydych yn byw ynddo.

Gallai swm y cynilion, y buddsoddiadau, yr eiddo neu'r tir sydd gennych chi neu'ch partner newid faint o Gredyd Pensiwn a gewch.

Os yw eich cynilion a buddsoddiadau yn fwy na £10,000, cwblhewch ffurflen PC1HW – Mwy o wybodaeth ynglŷn â chynilion a buddsoddiadau.

## Sut mae cynilion a buddsoddiadau yn newid Credyd Pensiwn?

Nid yw cynilion a buddsoddiadau o £10,000 neu lai yn newid faint o Gredyd Pensiwn y byddwch yn ei gael.

Os oes gennych gynilion a buddsoddiadau o fwy na £10,000, nid ydym yn cyfri'r £10,000 cyntaf. Dros £10,000, rydym yn cyfri pob £500 neu ran o £500 fel incwm o £1 yr wythnos.

## Mathau o gynilion a buddsoddiadau y mae angen i mi ddweud wrthych amdanynt

Wrth 'gynilion a buddsoddiadau' rydym yn golygu:

- arian mewn cyfrif cyfredol, hyd yn oed os ydych yn defnyddio'r cyfrif i dalu'ch biliau fel bod y balans yn newid
- cyfrif cynilo neu gadw, hyd yn oed os oes rhaid i chi roi rhybudd i dynnu'r arian allan
- arian mewn unrhyw gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa Post arall
- Tystysgrifau Cynilo Cenedlaethol
- arian wedi ei gynilo ar gyfer rhywbeth
- Bondiau Premiwm
- buddsoddiadau fel Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs), Cynlluniau Ecwiti Personol (PEP) ac ISAs TESSA yn unig (TOISAs) - y rhain oedd y cyfrifon cynilo arbennig wedi'u heithrio rhag treth a ddaeth i ben yn 2004
- bond incwm, bond cyfalaf neu Fond Incwm Gwarantedig Pensiynwr
- ymddiriedolaethau neu gyfranddaliadau uned
- unrhyw arian, eiddo neu fuddsoddiadau eraill sydd gennych chi neu'ch partner yn y wlad hon neu dramor.

## A oes angen i mi gynnwys unrhyw arian sydd gennyf gartref?

Oes. Mae angen i ni wybod faint o arian sydd gennych chi a'ch partner, hyd yn oed os ydych yn ei gadw gartref i dalu biliau neu am unrhyw reswm arall.

## A oes angen i mi gynnwys cynilion a buddsoddiadau fy mhartner?

Oes. Mae angen i ni wybod faint o arian sydd gennych chi a'ch partner, hyd yn oed os ydych yn ei gadw gartref i dalu biliau neu am unrhyw reswm arall.

## A oes angen i mi gynnwys cynilion a buddsoddiadau fy mhartner?

Oes. Mae angen i chi gynnwys cynilion a buddsoddiadau eich partner, gan gynnwys cyfranddaliadau. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am gynilion eich partner os ydych wedi gwahanu oddi wrthynt, neu os ydynt mewn cartref gofal yn barhaol.

## A oes angen i mi gynnwys cyfranddaliadau os nad wyf yn gwybod faint yw eu gwerth?

Os oes gennych gyfranddaliadau mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt. Nid yw stociau a chyfrannau yn syml. Er enghraifft, nid y gwerth

sydd wedi ei argraffu ar y dystysgrif cyfranddaliadau yw gwerth cyfredol eich cyfranddaliadau. Gallwch wirio gwerth cyfredol eich cyfranddaliadau yn rhestr FTSE yn y rhan fwyaf o'r papurau newydd. Os nad ydych yn sicr sut i ddarganfod gwerth eich cyfranddaliadau, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, gallwch ein ffonio ar **0800 99 1234**.

### Pa fathau o eiddo neu dir sydd angen i mi ddweud wrthych amdanynt?

Mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw eiddo neu dir rydych chi neu'ch partner yn berchen arno yn y wlad hon neu dramor, hyd yn oed os oes gennych forgais neu fenthyciad i dalu amdano.

Gallai hyn fod yn:
- cartref gwyliau
- eiddo rydych yn gosod ar rent
- eiddo rydych yn berchen arno, ond bod perthnasau yn byw ynddo
- eiddo cyfran gyfnodol
- stablau
- tir fferm neu farchgae.

Nid oes angen i chi ddweud wrthym am y lle rydych yn byw ynddo fel arfer, hyd yn oed os ydych yn berchen arno'n llwyr.

## Budd-daliadau

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am:
- Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth i Ofalwyr neu swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol a delir i rywun sy'n gofalu amdanoch chi neu'ch partner, neu
- Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth i Ofalwyr neu swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol na allai gael ei dalu i rywun am edrych ar eich hôl chi neu'ch partner oherwydd eu bod eisoes yn cael budd-dal arall. Er enghraifft, os oes rhywun eisoes yn cael Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ni allant gael eu talu Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth i Ofalwyr neu swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol hefyd.

## Pensiynau

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am unrhyw bensiynau sydd gennych chi neu'ch partner. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth a delir gennym ni. Dylech gynnwys unrhyw bensiwn sydd yn cael ei dalu i rywun arall ar eich rhan. Dywedwch wrthym hefyd os ydych chi neu'ch partner yn disgwyl cael pensiwn yn ystod y 12 mis nesaf.

### Pa brawf o bensiynau sydd angen i mi ei hanfon atoch?

Anfonwch eich slip cyflog pensiwn diweddaraf atom, os oes gennych un, neu rywbeth arall sydd yn dangos faint rydych neu a fyddwch yn ei gael. Ond peidiwch ag anfon ffurflen P60.

## Anfon dogfennau

Dylai unrhyw ddogfennau a anfonwch atom fel prawf o bensiwn fod yn ddogfennau gwreiddiol.

Dylent ddangos:
- pwy sy'n talu'r pensiwn
- pryd rydych yn cael y pensiwn
- unrhyw arian a dynnir o'ch pensiwn
- pa mor aml mae eich pensiwn yn cael ei dalu
- faint sy'n cael ei dalu
- pryd rydych yn cael codiad yn eich pensiwn
- y gyfradd y mae eich pensiwn yn codi.

## Rwyf wedi talu i mewn i gynllun pensiwn preifat ond ddim yn cael unrhyw arian ohono? A oes angen i mi ddweud wrthych amdano?

Oes, dywedwch wrthym os ydych chi neu'ch partner wedi talu i mewn i gynllun pensiwn preifat, hyd yn oed os nad ydych yn cael unrhyw arian. Gall hyn fod oherwydd rydych:
- wedi dewis gohirio cael unrhyw arian o'r cynllun
- heb hawlio arian y gallech wedi ei hawlio
- yn berchen ar gytundeb blwydd-dal ymddeol nad ydych wedi ei ddefnyddio i brynu blwydd-dal.

Dywedwch gymaint ag y gallwch am hyn yn 'Gwybodaeth arall'. Anfonwch brawf atom o faint fyddai'r pensiwn yn ei dalu a pha mor aml.

## Pa fath o bensiwn sydd angen i mi ddweud wrthych amdano?

Dywedwch wrthym am yr holl bensiynau sydd gennych chi neu'ch partner. Er enghraifft:
- pensiwn, pensiwn gwaith neu arian arall o le yr oeddech chi neu'ch partner yn arfer gweithio ynddo
- arian o gynllun pensiwn preifat – er enghraifft, o gwmni pensiynau neu gwmni yswiriant
- pensiwn o'r Rhestr Sifil. Dyfarniadau personol yw'r rhain wedi eu rhoi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines
- arian o flwydd-dal, hyd yn oed os nad yw'n bensiwn – er enghraifft, cynllun incwm cartref
- unrhyw Bensiwn Rhyfel neu daliad Iawndal Lluoedd Arfog a delir gan lywodraeth Prydain. Ond nid oes angen i chi anfon prawf o daliad gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog
- Pensiwn Anabledd i Heddweision ac Ymladdwyr Tân
- Pensiwn Gweddw Heddweision ac Ymladdwyr Tân
- Cynllun Budd-daliadau Ail-addasu Gweithwyr Haearn a Dur
- Cynllun Pensiwn Glowyr a Ddiswyddwyd
- Cynllun Tâl Diswyddo'r Diwydiant Adeiladu Llongau
- pensiwn a geir o dramor
- pensiwn wedi ei dalu i ddioddefwyr erledigaeth Sosialaeth Genedlaethol
- Cronfa Diogelu Pensiwn
- y Cynllun Cymorth Ariannol (FAS).

# Gwaith

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am:
- gwaith hunangyflogedig rydych chi neu'ch partner wedi ymddeol ohono neu wedi ei adael yn ystod y 3 mis diwethaf
- unrhyw waith a thâl rydych chi neu'ch partner yn ei wneud ar hyn o bryd.

### Pa fathau o waith sydd angen i mi ddweud wrthych amdanynt?

Y mathau o waith y mae angen i ni wybod amdanynt yw:
- unrhyw waith i gyflogwr
- gwaith parhaol neu achlysurol
- gwaith hunangyflogedig neu waith wedi'i is-gontractio.

### A oes angen i mi ddweud wrthych am waith na chaf fy nhalu amdano?

Na. Nid oes angen i ni wybod am waith di-dâl.

### Rwy'n gweithio ac nad wyf yn siŵr a allaf gael Credyd Pensiwn. Beth ddylwn i'w wneud?

Os ydych yn gweithio ac nad ydych yn siwr a ddylech wneud cais am Gredyd Pensiwn, cysylltwch â ni i gael cyngor. Gallwch ein ffonio ni ar **0800 99 1234**.

# Arian arall sy'n dod i mewn

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am arian arall sy'n dod i mewn gennych chi neu'ch partner. Dylech gynnwys unrhyw arian sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i rywun arall ar eich rhan. Dywedwch wrthym hefyd os ydych chi neu'ch partner yn disgwyl dechrau cael arian yn ystod y 12 mis nesaf.

### Ydy'r holl arian sy'n dod i mewn yn newid y swm o Gredyd Pensiwn gallaf ei gael?

Na. Mae'n dibynnu ar beth yw'r arian. Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl ynglŷn â'r arian sydd gennych chi neu'ch partner yn dod i mewn. Bydd hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr y cewch gymaint o Gredyd Pensiwn ag y gallwch.

## Pa fath o arian sydd angen i mi ddweud wrthych amdano?

Dywedwch wrthym am unrhyw un o'r mathau canlynol o arian sydd gennych chi neu'ch partner yn dod i mewn. Er enghraifft:

- arian gan rywun sy'n rhentu ystafell gennych yn eich cartref neu sy'n byw fel rhan o'ch cartref. Er enghraifft, lletywr, tenant neu is-denant
- Credyd Treth Gwaith
- breindaliadau neu arian ar gyfer llyfr a gofrestrwyd o dan y Cynllun Hawliau Benthyca Cyhoeddus
- arian gan eich cyn partner i dalu am gostau byw o ddydd i ddydd. Nid ydych angen anfon tystiolaeth o'r math yma o incwm
- budd-daliadau o dramor
- arian o bensiwn anabledd rhyfel neu bensiwn rhyfel o dramor ar gyfer gwraig weddw neu ŵr gweddw
- tâl salwch
- taliadau rheolaidd o ymddiriedolaeth
- arian o gynllun rhyddhau ecwiti
- arian o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog. Nid oes angen i chi anfon prawf o daliad gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

Peidiwch â dweud wrthym am fudd-daliadau neu Bensiwn y Wladwriaeth rydym yn ei dalu i chi. Mae'r wybodaeth hon gennym eisoes.

## Pa brawf o arian sy'n dod i mewn sydd angen i mi ei anfon atoch?

Os oes gennych unrhyw arian yn dod i mewn, anfonwch brawf atom gyda'ch ffurflen gais. Anfonwch ydatganiad gwreiddiol neu unrhyw ddogfen swyddogol arall sy'n dangos y swm a gewch a phryd mae'n cael ei dalu atom.

Gallai hyn fod yn:

- datganiad gan y person neu'r cwmni sy'n talu'r arian
- gorchymyn llys
- cyfriflen banc yn dangos y swm a dalwyd
- slip hysbysiad talu.

## Prawf o arian

Os na chawn brawf o'r arian a delir i chi, gallai newid y dyddiad y gallwn dalu Credyd Pensiwn i chi ohono.

Dylai unrhyw ddogfennau a anfonwch atom fel prawf o arian sy'n dod i mewn gennych fod yn ddogfennau gwreiddiol. Dylent ddangos:

- pwy sy'n talu'r arian
- pryd rydych yn cael yr arian
- y swm a gewch, neu'r swm rydych yn disgwyl ei gael
- am beth yw'r arian.

### Beth sy’n digwydd i fy nogfennau?

Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau atoch. Byddwn yn gwneud ein gorau i wneud hyn o fewn 5 diwrnod gwaith o’u cael.

### Ni allaf gael unrhyw dystiolaeth o’r arian sy’n dod i mewn gennyf. Beth ddylwn i’w wneud?

Os na allwch gael tystiolaeth o’r arian sy’n dod i mewn gennych, dywedwch pam wrthym yn y rhan ‘Gwybodaeth arall’ ar y ffurflen gais. Anfonwch eich ffurflen gais atom ar unwaith. Efallai y byddwn yn gallu talu Credyd Pensiwn i chi o hyd.

## Pethau eraill sydd angen i ni eu gwybod

Mae’r rhan hon o’r ffurflen gais yn dweud wrthych am bethau eraill sydd angen i ni eu gwybod amdanynt.

Mae rhai o’r cwestiynau rydym wedi eu gofyn yn ein helpu i benderfynu os oes gennych chi a’ch partner hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu’r Weriniaeth Iwerddon.

### Beth yw ystyr ‘hawl i breswylio’?

Er enghraifft, mae gennych yr hawl i fyw yn y DU os ydych chi’n ddinesydd Prydeinig.

Trwy hawl i breswyl rydym yn golygu rydych:
- yn rhydd o reolaeth mewnfudo, ac
- nid oes angen caniatâd swyddog mewnfudo i ddod i mewn i’r DU, ac
- yn gallu byw a gweithio yn y DU heb gyfyngiad.

### Sut byddaf yn gwybod os yw’r Swyddfa Gartref wedi rhoi terfyn ar ba mor hir y caf aros?

Bydd wedi ei farcio’n glir ar un o dudalennau eich pasbort.

### Newid mewn statws mewnfudo

Os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig ac mae eich statws mewnfudo yn newid, mae angen i ni wybod. Os ydych yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd, Ardal Economaidd Ewropeaidd neu’r Swistir ac yn byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 ond heb wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, rhaid i chi a’ch teulu wneud cais ar unwaith. Os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol, gallwch wneud cais am statws preswylydd sefydlog.

Os oes gennych statws preswylydd cyn-sefydlog, ni fydd hyn yn dod i ben. Gallai fod yn fuddiol i chi wneud cais am statws preswylydd sefydlog os ydych wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy yn olynol.

# O bryd rydych am wneud cais

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym y dyddiad rydych am wneud cais ohono. Yr oedran cymhwyso yw'r dyddiad cynharaf y gallwch gael Credyd Pensiwn. Mae yr un peth ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n 66 ar hyn o bryd.

Mae cynnwys yr enghreifftiau yn y nodiadau hyn at ddibenion eglurhaol yn unig.

## Yr oedran cymhwyso

Ticiwch y blwch hwn os:
- gwnaethoch gyrraedd yr oedran cymhwyso yn y 3 mis diwethaf, neu byddwch yn ei gyrraedd yn y 4 mis nesaf, a
- gwnaethoch roi'r gorau i waith llawn amser cyn yr oedran cymhwyso, neu rydych yn bwriadu rhoi'r gorau i weithio cyn i chi gyrraedd yr oedran cymhwyso.

### Enghraifft 1 – Tom

Dyddiad geni Tom yw 1 Hydref 1955. Bydd Tom yn cyrraedd yr oedran cymhwyso ar 1 Hydref 2021 pan fydd yn 66 oed. Mae'n gweithio'n llawn amser tan y dyddiad hwn. Mae'n llenwi ei ffurflen gais ym mis Mehefin 2021. Gallai Tom gael Credyd Pensiwn o 1 Hydref 2021, felly mae'n ticio'r blwch sydd wedi'i farcio fel 'oedran cymhwyso' ar ei ffurflen gais.

## Dyddiad arall

Ticiwch y blwch hwn a llenwch y dyddiad os:
- roeddech yn credu fod gennych ormod o arian yn dod i mewn i gael Credyd Pensiwn, ond bod yr arian wedi gostwng ers hynny, neu
- rydych yn credu fod gennych ormod o arian yn dod i mewn i gael Credyd Pensiwn ar hyn o bryd, ond o fewn y 4 mis nesaf rydych yn disgwyl i gael llai o arian yn dod i mewn.

Rhowch y dyddiad yr aeth yr arian i lawr, neu'r dyddiad rydych yn disgwyl i'r arian fynd i lawr, a dywedwch wrthym pam rydych yn dewis y dyddiad.

### Enghraifft 2 – Bob

Mae Bob yn 66. Roedd yn ennill £270 yr wythnos nes iddo roi'r gorau i weithio ar 6 Ionawr 2021. Mae Bob o'r farn ei fod yn ennill gormod o arian i gael Credyd Pensiwn cyn iddo stopio gweithio ar 6 Ionawr 2021. Mae Bob yn ticio'r blwch wedi'i farcio 'dyddiad arall' ar ei ffurflen gais. Mae'n dweud wrthym ei fod wedi rhoi'r gorau i weithio ar 6 Ionawr 2021 ac roedd yn ennill £270 yr wythnos.

## Os yw'n rhy gynnar i wneud cais

Mae'n rhy gynnar i wneud cais os:
- rydych o dan yr oedran cymhwyso, ac ni fyddwch yn cyrraedd yr oedran hwnnw yn y 4 mis nesaf, neu
- rydych yn dal i weithio'n llawn amser ac nid ydych yn bwriadu rhoi'r gorau i weithio o fewn y 4 mis nesaf.

Os nad ydych yn siŵr pa ddyddiad i'w ddewis, gallwch ein ffonio ar **0800 99 1234**. Gallwn eich helpu i benderfynu pa ddyddiad i'w ddewis.

## Sut mae'r dyddiad rydw i am wneud cais ohono yn effeithio beth sydd angen i mi ei ddweud wrthych?

### Os yw'r dyddiad yn y gorffennol

Os yw'r dyddiad yr ydych am wneud cais ohono yn y gorffennol, dywedwch wrthym yn rhan 'Gwybodaeth arall' y ffurflen. Mae angen i ni wybod am unrhyw newidiadau rhwng yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ar y ffurflen gais a'r dyddiad rydych chi wedi'i ddewis.

Mae'r pethau sydd angen i chi ddweud wrthym amdanynt yn 'Gwybodaeth arall' yn cynnwys:

- os ydych yn dod yn gyfrifol am blentyn/blant neu bobl ifanc cymwys, neu mae plentyn/plant neu bobl ifanc cymwys yn gadael y cartref
- newidiadau mewn amgylchiadau eich plentyn/plant neu bobl ifanc cymwys, yn cynnwys pan maent yn cyrraedd 16 a 19 oed
- amser a dreuliwyd gennych chi neu'ch partner yn yr ysbyty fel claf mewnol
- amser a dreuliwyd allan o Brydain Fawr
- newidiadau i arian sy'n dod i mewn
- cyfnodau yn y carchar
- cyfnodau o gyflogaeth neu hunangyflogaeth
- newidiadau i'ch cynilion neu fuddsoddiadau – ond nid ydych angen dweud wrthym am newidiadau i'ch cynilion a buddsoddiadau os ydynt neu os oeddynt bob amser yn llai na £10,000
- os ydych chi neu'ch partner wedi mynd i mewn i gartref gofal
- os ydych chi neu'ch partner wedi symud allan o gartref gofal
- os oedd gennych bartner a wahanodd oddi wrthych yn ystod y 3 mis diwethaf
- os oedd gennych bartner a fu farw yn ystod y 3 mis diwethaf.

**Enghraifft 3 – Mary**

Dyddiad geni Mary yw 1 Tachwedd 1954, felly cyrhaeddodd yr oedran cymhwyso ar 1 Tachwedd 2020. Gweithiodd yn rhan-amser am sawl blwyddyn ond stopiodd ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n llenwi ei ffurflen gais ym mis Chwefror 2021. Mae Mary o'r farn y gallai gael Pensiwn Credyd o'i hoedran cymhwyso, felly mae'n penderfynu ticio'r blwch sydd wedi'i farcio 'oedran cymhwyso' ar y ffurflen gais. Mae Mary yn dweud wrthym ar y ffurflen gais am ei henillion rhan-amser o'r dyddiad y cyrhaeddodd yr oedran cymhwyso.

### Os yw'r dyddiad yn y dyfodol

Dywedwch wrthym yn 'Gwybodaeth arall' os ydych yn disgwyl i unrhyw beth rydych wedi dweud wrthym ar y ffurflen gais newid cyn y dyddiad yr ydych am wneud cais ohono.

**Enghraifft  4 – Hussain**

Dyddiad geni Hussain yw 6 Awst 1955. Felly bydd yn cyrraedd yr oedran cymhwyso ar 6 Awst 2021. Mae'n disgwyl stopio ei waith ym mis Mehefin 2021. Mae'n llenwi ei ffurflen gais ym mis Mawrth 2021. Mae Hussain o'r farn y bydd yn cael Credyd Pensiwn o Fehefin 2021, pan fydd yn stopio gweithio. Mae rhaid iddo ddweud wrthym am ei waith, gan gynnwys y dyddiad y mae'n disgwyl stopio gweithio, ar y ffurflen gais.

# Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am unrhyw wybodaeth arall ynglŷn â'ch amgylchiadau.

## Pa fath o bethau ddylwn i ddweud wrthych amdanynt?

Dywedwch wrthym:
- os yw eich partner yn byw ar wahân i chi – er enghraifft, oherwydd eu bod yn gweithio oddi cartref
- am unrhyw blant neu bobl ifanc cymwys nad oedd gennych le i ddweud wrthym amdanynt
- os oes gennych chi neu'ch partner fwy nag un benthyciwr morgais neu
- fenthyciwr benthyciad cartref
- os ydych chi neu'ch partner yn denant y Goron, os ydych yn talu prif rent neu daliadau rhent eraill
- am unrhyw eiddo neu dir arall sy'n berchen i chi neu'ch partner ar wahân i'r lle rydych yn byw
- os ydych chi neu'ch partner yn talu treth busnes ar unrhyw ran o ble rydych yn byw
- am unrhyw bensiynau nad oedd gennych le i ddweud wrthym amdanynt yn
- os ydych chi neu'ch partner wedi mynd i mewn i gartref gofal
- os ydych chi neu'ch partner wedi symud allan o gartref gofal
- ynglŷn â chynllun pensiwn preifat rydych wedi talu i mewn iddo ond nad ydych yn cael arian ohono
- os ydych chi neu'ch partner, o fewn y 28 wythnos diwethaf, wedi adfer eich golwg ar ôl cael eich cofrestru'n ddall
- am unrhyw beth arall rydym wedi gofyn amdano yn y rhan 'Pryd rydych am wneud cais' y ffurflen. Os byddwch yn dweud wrthym am newidiadau i arian sy'n dod i mewn neu i gynilion neu fuddsoddiadau, anfonwch brawf o'r newidiadau
- os ydych chi neu'ch partner erioed wedi cael cyfandaliad o ganlyniad i ohirio hawlio Pensiwn y Wladwriaeth. Dywedwch wrthym am swm y dyfarniad
- os ydych chi neu'ch partner yn gofalu am rywun sy'n cael Lwfans Gweini, Taliad Plentyn Anabl ar gyfradd ganol neu uchaf yr elfen ofal, Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfradd ganol neu uchaf, elfen ofal neu'r Taliad Annibyniaeth Personol neu Daliad Anabledd Oedolion (naill ai cyfradd safonol neu'n uwch).

## Treth

Os ydych yn cwblhau datganiad treth Hunan Asesiad ac rydych yn talu eich treth yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EM, dywedwch wrthym faint o Dreth Incwm fyddwch yn ei dalu neu'n disgwyl ei dalu am y flwyddyn dreth gyfredol. Mae hyn oherwydd bod Credyd Pensiwn yn ystyried eich incwm ar ôl treth, gan gynnwys unrhyw dreth sy'n ddyledus mewn perthynas â'ch Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n. Mae dweud wrthym am y dreth rydych yn ei dalu yn ein helpu i sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o Gredyd Pensiwn ac yn golygu efallai y cewch fwy.

Gallwch gael gwybod mwy ynglŷn â Threth Incwm yn **www.gov.uk/income-tax**.

Hefyd gallwch ddefnyddio 'Gwybodaeth arall' i ddweud wrthym am unrhyw beth arall rydych yn credu y mae angen i ni wybod amdano.

# Sut rydym yn eich talu

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i'ch talu.

Yn arferol rydym yn talu Credyd Pensiwn yn uniongyrchol i gyfrif. Mae nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu eich arian o'r swyddfa bost.

## Pa mor aml fyddwch yn fy nhalu?

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010 byddwn yn talu eich Credyd Pensiwn i chi yn wythnosol ymlaen llaw.

Os ydych yn cyrraedd, neu wedi cyrraedd, oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 byddwn fel arfer yn eich talu bob 4 wythnos mewn ôl-ddyledion. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio allan eich Credyd Pensiwn am gyfnod o 4 wythnos, ac yna'n talu hyn i chi ar ddiwedd bob 4 wythnos.

Efallai roeddech yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd- dal Analluogrwydd cyn gwneud cais am Gredyd Pensiwn. Byddwn yn parhau i'ch talu yn yr un ffordd, os mai dyna'r ffordd rydych yn dymuno cael eich talu.

Dylech gwblhau'r blwch ar y ffurflen gais bob amser sy'n gofyn pa mor aml rydych eisiau cael eich talu.

## Pa gyfrif a allaf ddefnyddio?

Gallwch ddefnyddioe:
- cyfrif yn eich enw chi
- cyfrif ar y cyd, neu
- cyfrif rhywun arall, os
  - bod termau ac amodau'r cyfrif yn caniatáu hyn, ac
  - maent yn cytuno i chi ddefnyddio'r cyfrif, ac
  - rydych yn sicr y byddant yn defnyddio'ch arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt.

Os ydych yn benodai neu gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.

## Sut byddwch yn fy nhalu?

Byddwn yn dweud wrthych pryd y gwneir y taliad cyntaf ac am faint. Byddwn yn dweud wrthych os bydd y swm a dalwn i'r cyfrif yn newid.

## Sut y gallaf gael gwybod faint rydych wedi ei dalu i'r cyfrif?

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni eich cyfrif. Efallai bydd eich cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os ydych yn credu bod taliad yn anghywir, cysylltwch â ni ar unwaith.

## A all rhywun arall gasglu fy Nghredyd Pensiwn ar fy rhan?

Gallwch gael rhywun arall i gasglu eich Credyd Pensiwn os dymunwch. Am help gyda hyn cysylltwch â'ch banc, cymdeithas adeiladu neu'ch undeb credyd.

## Beth os byddwn yn talu gormod o arian i chi?

Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian wedi'i dalu i chi na ddylech fod wedi ei gael. Er enghraifft, efallai eich bod yn dweud wrthym fod yr arian sydd gennych yn dod i mewn wedi newid, ac efallai y byddai hyn yn golygu y cewch lai o Gredyd Pensiwn. Os yw'r newid eisies wedi digwydd, efallai ein bod wedi talu gormod o Gredyd Pensiwn i chi. Bydd angen i ni gymryd yr arian na ddylem fod wedi'i dalu i chi yn ôl.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn cymryd unrhyw arian yn ôl.

Cofiwch,mae angen i chi ddwewud wrthym am unrhyw newidiadau rydych yn gwybod bydd yn digwydd yn y dyfodol.

## Mae gennyf gyfrif ond nid wyf am ei ddefnyddio. Beth allaf ei wneud?

Efallai bod gennych gyfrif ond ddim eisiau ei defnyddio. Er enghraifft, cyfrif ar y cyd. Bydd unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu yn eich helpu i agor cyfrif sy'n fwy addas i chi. Cofiwch i ofyn a yw'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn caniatáu i chi gael eich arian o swyddfa'r post, os yw hyn yn bwysig i chi.

## Nid oes gennyf gyfrif addas. Beth gallaf ei wneud?

Os nad oes gennych gyfrif addas, bydd unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu yn eich helpu i agor cyfrif. Os ydych eisiau cael eich arian o'r swyddfa bost, gwiriwch fod y cyfrif yn caniatáu i chi wneud hyn.

Os cawsoch anawsterau wrth agor cyfrif, neu os ydych yn poeni am fynd i orddrafft, gallwch ofyn mewn banc neu gymdeithas adeiladu ynghylch agor cyfrif banc sylfaenol. Mae'r cyfrifon hyn i'w cael gan holl brif fanciau ac maent yn cynnig bancio am ddim ac yn eich stopio rhag cymryd mwy o arian na sydd gennych. Gallwch ddefnyddio'r cyfrifon hyn i dalu arian i mewn, i dalu biliau'n awtomatig ac i godi arian parod. Mae nifer o gyfrifon banc sylfaenol hefyd yn caniatáu i chi gael arian parod o swyddfeydd post.

Neu, gallwch gael eich talu i rai cyfrifon undeb credyd. Efallai na fydd y cyfrifon hyn yn darparu holl wasanaethau. Llenwch y ffurflen gais Credyd Pensiwn a'i hanfon atom. Peidiwch ag aros nes y byddwch wedi agor cyfrif. Dywedwch wrthym beth yw eich manylion cyfrif ar unwaith wedi i chi eu cael.

# Eich datganiad

## Pwysig

Mae'n bwysig eich bod yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen gais. Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd yn rhaid i ni ei dychwelyd atoch.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu os nad ydych yn rhoi gwybod am newidiadau, efallai y telir y swm anghywir i chi. Bydd yn rhaid i chi dalu'n ôl y gordaliad pan ofynnir i chi wneud hynny. Gallech hefyd gael eich erlyn neu angen talu cosb ariannol. Os ydym yn talu llai i chi nag y dylem, efallai y byddwn yn talu'r arian sy'n ddyledus i chi.

## A allaf lofnodi'r ffurflen gais ar ran rhywun arall?

Dylech ond llofnodi'r ffurflen gais ar ran rhywun arall:
- os nad yw'r person sy'n gwneud y cais mewn cyflwr meddyliol i allu gweithredu drostynt eu hunain, ac
- os ydych yn fodlon gweithredu iddynt mewn holl faterion nawdd cymdeithasol gan gynnwys dweud wrthym am unrhyw newidiadau sy'n digwydd, a chasglu eu harian iddynt.

Ni ddylech lofnodi'r ffurflen gais ar gyfer rhywun sydd mewn cyflwr meddyliol i allu rheoli eu materion eu hunain. Ni fydd rhywun gydag anabledd corfforol ond sy'n gymwys yn feddyliol angen rhywun i weithredu ar eu rhan fel arfer.

## Rwyf am weithredu ar ran rhywun nad ydynt mewn cyflwr meddyliol i reoli eu materion eu hunain. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu ymweliad i'ch gweld chi a'r person sy'n gwneud y cais. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a oes angen rhywun i weithredu ar ran y person ar gyfer pob mater nawdd cymdeithasol. Gelwir y bobl hyn yn 'benodai'. Byddwn yn egluro cyfrifoldebau penodai i chi.

## Mae gennyf bŵer atwrnai dros y person sy'n gwneud y cais. Beth ddylwn i'w wneud?

Os oes gennych bŵer atwrnai neu unrhyw awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person sy'n gwneud y cais ac mae'r Adran wedi cymeradwyo eich awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person sy'n gwneud cais, gallwch lofnodi'r cais iddynt. Rhowch wybod i ni os ydym wedi derbyn yr awdurdod

o'r blaen er mwyn i ni allu gwirio ein cofnodion.

Os nad yw'r Adran erioed wedi cymeradwyo'r awdurdod cyfreithiol, cysylltwch â ni er mwyn i ni allu ei drafod hyn gyda chi. Ein rhif ffôn yw **0800 99 1234**.

# Beth i'w wneud nawr

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym ba ddogfennau rydych yn eu hanfon atom.

Cyn i chi anfon eich ffurflen gais atom, gwnewch yn siŵr eich bod:
- yn anfon yr holl ddogfennau gwreiddiol i gefnogi eich cais – er enghraifft, slipiau cyflog, tystiolaeth o bensiwn preifat neu bensiwn gwaith
- wedi ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un
- wedi llofnodi a dyddio 'Eich datganiad'.

Rhowch eich ffurflen gais a dogfennau eraill yn yr amlen, os darperir amlen. Nid oes angen stamp ar yr amlen hon.

Anfonwch ef atom cyn gynted ag y gallwch.

Os na chawn y dogfennau gwreiddiol erbyn y dyddiad sydd ar flaen y ffurflen gais, gallai newid y dyddiad y gallwn dalu Credyd Pensiwn i chi.

## Beth sy'n digwydd i fy nogfennau?

Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau atoch. Byddwn yn gwneud ein gorau i wneud hyn o fewn 5 diwrnod gwaith o'u cael. Os ydych yn poeni am anfon eich dogfennau gwreiddiol, gallwch eu hanfon atom drwy ddanfoniad cofnodedig neu bost cofrestredig.

## Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom

Weithiau byddwn angen rhagor o wybodaeth i ddelio â'ch cais. Os byddwn angen rhagor o wybodaeth, fel arfer byddwn yn eich ffonio. Mae hyn yn arbed i chi lenwi mwy o ffurflenni. Ond os na allwn gysylltu â chi dros y ffôn, efallai y byddwn angen anfon ffurflen arall atoch i'w llenwi.

## Os bydd angen help arnoch

Gallwch ein ffonio ni ar **0800 99 1234**.

Os oes gennych anawsterau ar eich lleferydd neu ar eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0133**.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf gallwch ofyn am gyfieithydd.

Gwybodaeth gyffredinol yn unig a geir yn y llyfryn hwn ac nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith.

Cadwch y nodiadau hyn mewn man diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen

# Gwladolion yr AEE a'r Swistir

**Mae angen i wladolion yr AEE a'r Swistir feddu ar statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

Mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Os ydych yn wladolyn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, mae angen i chi ac aelodau'ch teulu gael statws mewnfudo yn y DU i barhau i fyw yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

Mae angen statws arnoch chi a'ch teulu hyd yn oed os ydych eisoes wedi derbyn dogfen breswyl barhaol gan y Swyddfa Gartref, neu wedi bod yn byw yn y DU ers amser maith. Mae angen i chi wneud cais am statws mewnfudo i fod yn gymwys i gael budd-daliadau. Mae hyn yn cynnwys hawliau newydd a phresennol i fudd-daliadau.

Mae'n rhad ac am ddim i wneud cais am statws mewnfudo yn y DU. Nid oes angen i wladolion Gwyddelig na'r rheini sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU wneud cais.

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud cais am Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ewch i **www.gov.uk/eusettlementscheme** neu ffoniwch **0300 123 7379**. Nid oes angen i chi gysylltu â DWP pan fyddwch yn gwneud cais neu'n cael statws. Os oes angen manylion am eich statws ar DWP, byddant yn cysylltu â chi.

# Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch gallwn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn credydau treth
- troseddau
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion gan fod y gyfraith yn caniatáu gwirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau.

Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn rhag trosedd.

I ddarganfod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/dwp/personal-information-charter**